Digwyddiadau'r Parciau & Theithiau Cerdded 2009

CARDIFF
CAERDYDD

Croeso Cynnes

Croeso i Lyfryn Digwyddiadau'r Parciau 2009, eich canllaw i'r amrywiaeth o ddigwyddiadau a gynhelir bob blwyddyn yn ein parciau a mannau gwyrdd; ardaloedd a ystyriwn yn hanfodol i les a datblygiad economaidd y ddinas.

Yn 2008, arddangosodd Caerdydd yn Sioe RHS, Chelsea, am yr ail dro, gan ennill medal Arian ar gyfer yr ardd 'Caerdydd – Prifddinas Chwaraeon'. Mae'n bleser gennym gael gwahoddiad i arddangos eto eleni, gyda'r ardd 'Caerdydd – Prifddinas Siopa'.

Mae Sioe RHS yn dychwelyd unwaith eto i Gaerdydd, i Gae Coopers, Parc Bute ym mis Ebrill. Mae'r sioe wedi bod yn hynod lwyddiannus am bedair blynedd bellach, ac mae disgwyl iddi fod hyd yn oed yn well eleni. Mae'r gystadleuaeth Berfa Flodau'r Plant - a gefnogir gan Legal & General wedi mynd o nerth i nerth, â 50 o gynigion y llynedd, a chydag ysgolion o Fro Morgannwg bellach yn cystadlu, gobeithio y bydd mwy o gynigion eto. O gyfres o gyngherddau haf awyr agored a Gŵyl Plant Tesco yng Nghae Coopers i Ŵyl y Gaeaf Caerdydd a Phenwythnos Mawr Admiral Caerdydd ar Lawnt Neuadd y Ddinas - daw'r rhaglen ddigwyddiadau ddynamig hon â phleser i gannoedd o filoedd o breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Rydym yn falch o gyhoeddi bod Parc y Rhath, Parc Fictoria a Gerddi'r Grange wedi cadw eu Banner Werdd yn 2008, ac roedd ein cynnig diweddaraf, Parc Bute, hefyd yn llwyddiannus yn ei flwyddyn gyntaf o gystadlu.

Mae parciau a mannau gwyrdd Caerdydd yn chwarae rôl werthfawr ym mywyd y ddinas a'i phobl. Gobeithiwn y byddwch yn parhau i'w mwynhau yn eu holl amrywiaeth.

www.caerdydd.gov.uk/parciau
Gwasanaethau Parciau 029 20445 900

CARDIFF
CAERDYDD

Sut i ddefnyddio'r llyfryn hwn

Allwedd

addas i'r anabl

Llwybrau yn ôl lefel gallu

diddordeb arbennig - fflora

diddordeb arbennig - bywyd gwyllt (ffawna)

diddordeb arbennig - adar

diddordeb arbennig - pysgota

diddordeb arbennig - coetiroedd

diddordeb arbennig - hanesyddol

gweithgareddau/clwb plant

gweithdy

addas i'r teulu

tâl bach (£ y pen)

caniateir cŵn

DOSBARTHIAD ESGID

Mae un esgid yn dynodi taith gerdded hawdd

Mae dwy esgid yn dynodi taith gerdded ychydig mwy egnïol

Bydd angen i chi fod yn eithaf heini ar gyfer taith gerdded tair esgid

Sut i ddefnyddio'r llyfryn hwn

ARCHEBU
Mae nifer cyfyngedig o lefydd ar gyfer rhai o'r digwyddiadau. Lle nodir hyn rhaid trefnu llefydd o flaen llaw ac argymhellir eich bod yn archebu'n gynnar.

MANNAU CYFARFOD
Nodir mannau cyfarfod ar gyfer pob digwyddiad ond os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ffoniwch y Gwasanaethau Parciau.

ARWEINWYR DIGWYDDIADAU
Diolch i'r holl bobl sy'n arwain y teithiau a'r gweithgareddau amrywiol, yn enwedig y gwirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser gan rannu cyfoeth o wybodaeth sy'n ein helpu ni i ddarparu rhaglen mor amrywiol.

CYSYLLTU Â'R GWASANAETHAU PARCIAU
Am ragor o wybodaeth ar unrhyw beth yn ymwneud â Pharciau, Mannau Agored a'r Amlosgfa yng Nghaerdydd ffoniwch y Gwasanaethau Parciau ar Ffôn: **029 2068 4000** neu ewch i'n gwefan **www.caerdydd.gov.uk/parciau**

Mae'r holl ddigwyddiadu am ddim, oni nodir yn wahanol

DIDDORDEB ARBENNIG
Mae llawer o'n gweithdai/teithiau cerdded yn canolbwyntio ar bynciau penodol ym mhob rhan o'n parciau. Mae'r digwyddiadau'n ymdrin â diddordebau arbennig -

Fflora
Bywyd gwyllt (Ffawna)
Adar
Pysgota
Coetiroedd

CŴN
NID yw rhai o'r teithiau yn caniatáu cŵn (ac eithrio cŵn tywys). Nodir hyn yn glir os mai dyma'r achos. Ar gyfer yr holl deithiau cerdded a gweithgareddau eraill caniateir cŵn ond dylid eu cadw ar dennyn byr bob amser. Gofynnir i berchnogion gadw ein parciau yn lân gan lanhau ar ôl eu cŵn. Byddwch yn barod a chariwch fag gyda chi i chi allu ei 'roi yn y bag ac yn y bin'.

CERDDED ER LLES IECHYD YNG NGHAERDYDD

Mae'r cynllun "Get up and Go" yn cynnwys cyfres o deithiau cerdded byr er iechyd, gyda thywyswr, ac fe'u cynhelir bob wythnos mewn cymunedau amrywiol ar draws y ddinas. Mae'r teithiau ar agor i bawb, ond yn enwedig i'r rheiny nad ydynt yn ymarfer llawer neu'n gwella ar ôl anaf neu salwch. Mae nifer o'r cerddwyr rheolaidd wedi dod yn ffrindiau ac yn mwynhau'r ochr gymdeithasol o'r teithiau yn ogystal â chael budd o'r ymarfer. Cynhelir y teithiau ym mharciau a mannau agored hyfryd Caerdydd ac mae croeso i bawb, hyd yn oed y rhai â phroblemau corfforol, gyda chaniatâd eu meddyg. Yn achlysurol trefnir taith ar y cyd i alluogi'r holl gerddwyr i ddod at ei gilydd.

Bydd y rhaglen 2008/09 arfaethedig yn cynnwys pymtheg o deithiau cerdded wythnosol er iechyd gydag arweinwyr cerdded i'w cefnogi. Bydd y teithiau yn yr ardaloedd canlynol:-

- Taith Taf – Gabalfa
- Rhiwbeina
- Caeau Pontcanna
- Parc y Rhath
- Gogledd Parc Bute
- Parc Sblot
- Parc Fictoria
- Parc y Mynydd Bychan
- Bae Caerdydd
- Llanrhymni
- Llanfihangel-ar-Elái (Trelái)
- Llaneirwg
- Butetown
- Llanedern
- Llanisien
- De Trelái

Am ragor o wybodaeth ar y rhaglen teithiau iechyd uchod, cysylltwch â'r Cydlynydd Project ar **029 2087 3633**, e-bost **janewilliams@caerdydd.gov.uk**, neu edrychwch ar y gwefannau **www.cardiffwalkingforhealth.com** neu **www.lets-walk-cymru.org.uk**

Cynlluniau cerdded a Gwyliau

GŴYL ALLAN O'R COED CAERDYDD PARC BUTE

Dydd Sul, 23 Awst,
10.30am-4.30pm

AM DDIM

Dan arweiniad Gwasanaeth y Ceidwaid Parciau a Chris Powell, Swyddog Cadwraeth Parciau. Digwyddiad tir coediog i'r teulu cyfan gyda chelf a chrefft tir coediog, llwybrau natur, padlo yn eich cwrwgl eich hunan a nifer o weithgareddau difyr eraill. Bydd cynhyrchion lleol hefyd ar gael a gallwch fwynhau danteithion cartref hamddenol yng Nghaffi Hardwood.

Cystadlaethau

CYSTADLEUAETH FFOTOGRAFFIG 2009 LLUNIAU O GAERDYDD

AM DDIM

Trefnir gan Wasanaeth Ceidwaid y Parciau. Ymunwch i ddathlu Parciau Caerdydd drwy ymgeisio yn y gystadleuaeth ffotograffig eleni â'ch llun gorau. Gall ceisiadau fod mewn lliw neu ddu a gwyn, a dylent adlewyrchu themâu'r gystadleuaeth sef, Fflora, Ffawna a Thirluniau Parciau Caerdydd.

Gall lluniau amrywio o blanhigion ac adar i'ch hoff olygfa. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Ceidwaid Parciau ar Ffôn: **029 2044 5900** am ragor o wybodaeth a ffurflen gais.

CYNIGION I'W DERBYN ERBYN 1 TACHWEDD 2009

CAERDYDD YN EI BLODAU 2009

DOSBARTHIADAU I BAWB!

Gallwch gynnig gardd fechan neu fawr, gardd fusnes, ysgol, stryd, eglwys neu adeilad cymunedol.

Mae dosbarth hefyd ar gyfer dosbarth sy'n dymuno canolbwyntio ar arddio ar gyfer bywyd gwyllt.

Canolfan Arddio Caerffili sy'n cefnogi'r gystadleuaeth yn 2009.

Os hoffech help neu gyngor ar sut i fynd o'i chwmpas hi, ffoniwch Caerdydd yn ei Blodau neu ewch i'r wefan am syniadau, ysbrydoliaeth a gwybodaeth.
www.caerdydd.gov.uk/blodau
neu ffoniwch: - **029 2068 4000**

BLWYDDYN YM MYWYD RHOSYN (1)
Dydd Mercher 11 Mawrth, 2.00pm-3.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Cymorth a chyngor ymarferol gan y Ceidwaid Parciau ar ofalu am eich rhosod. Bydd y digwyddiad hwn yn ymwneud â gwahanol ddulliau o docio planhigion. Gweler hefyd ddigwyddiadau rhifau 39 a 78. Cyfarfod yn Nhŷ Gwydr Parc y Rhath.

CLWB GWYLIO BYWYD GWYLLT FFERM Y FFOREST – GWEITHDY FFOTOGRAFFIAETH (2)
Dydd Sadwrn 21 Mawrth, 10.00am-12.00pm

£1.00 Y PLENTYN

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. GWYLIO yw cangen iau'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cenedlaethol ar gyfer plant 8-12 oed. Mae Clwb GWYLIO Bywyd Gwyllt Fferm y Fforest yn ffordd ddifyr o ddysgu am fywyd gwyllt a'i gadwraeth mewn amgylchedd diogel. Canllaw ar sut i greu'r llun perffaith gan ddefnyddio'r amgylchedd o'ch cwmpas. Dewch â chamera os oes gennych un. Cyfarfod yng Nghanolfan y Wardeniaid, Fferm y Fforest. Ffoniwch Wasanaeth y Ceidwaid Parciau ar 029 2044 5903 am ragor o fanylion.

TAITH GERDDED ADAR FISOL YN FFERM Y FFOREST (3)
Dydd Sadwrn 21 Mawrth, 10.00am-12.30pm
(Trydydd dydd Sadwrn pob mis)

Dan arweiniad RSPB Caerdydd â Chyfeillion Fferm y Fforest. Taith dywysedig i adnabod adar lleol, a all amrywio o fis i fis. Dewch â sbienddrych os oes gennych un. Yn addas ar gyfer pob lefel o ddiddordeb a phob oed. Cyfarfod yng Nghanolfan y Warden, Forest Farm Road, Yr Eglwys Newydd. Cynhelir y daith hon ar y trydydd dydd Sadwrn o bob mis. *Pellter 4cilomedr*

ADFER PARC BUTE (4)
Dydd Sul, 29 Mawrth, 2.00pm-3.30pm

Arweinir gan John Green, Swyddog Tirlunio. Taith o gwmpas Parc Bute yn edrych ar gynnydd rhai o'r cynigion a weithredir fel rhan o becyn gwaith adfer y parc pum miliwn o bunnoedd sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Treftadaeth y Loteri. Mae'r daith hon yn rhoi'r cyfle i ddeall sut mae ymchwil i hanes y parc wedi dylanwadu ar y dull a ddefnyddir i ddatblygu'r project. Cwrdd wrth fynedfa Porth y Gorllewin i Barc Bute (wrth ymyl Pont Caerdydd). *Pellter 2.5cilomedr*

BLODAU'R GWANWYN YNG NGHOETIROEDD COED Y FELIN (5)
Dydd Sadwrn 4 Ebrill,10.30am-12.00pm

Dan arweiniad y Gwasanaeth Ceidwaid Parciau a Chyfeillion Coetiroedd Coed y Felin. Ymunwch â'r Ceidwaid a Chyfeillion Coetiroedd Coed Y Felin am daith o amgylch y coetir i ddarganfod blodau'r gwanwyn. Cwrdd wrth fynedfa Cefn Onn Road i'r coetiroedd. *Pellter 2cilomedr*

Ebr

GWASANAETH COFFA SUL Y BLODAU YN AMLOSGFA THORNHILL (6)
Dydd Sul 5 Ebrill, 2.00pm-3.30pm

Arweinir gan y Gwasanaethau Profedigaeth. Dyma un o'r gwasanaethau coffa blynyddol a gynhelir ym Mynwent ac Amlosgfa Thornhill yng Nghapel Wenallt. Cynhelir y gwasanaethau i gofio am yr holl gladdedigaethau ac amlosgiadau yng Nghaerdydd. Lluniaeth i ddilyn. Croeso i bawb. Tagiau coffa'r Pasg ar gael am gyfraniad o £2.00.

CYFEIRIANNU I DDECHREUWYR (7)
Dydd Sul 5 Ebrill, 2.00pm-4.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Dysgwch sut i ddarllen map cyfeiriannu sylfaenol i ddarganfod eich ffordd o amgylch y cwrs newydd yng Nghaeau Pontcanna a Pharc Bute. I'r rheiny nad ydynt wedi rhoi cynnig ar gyfeiriannu rhoddir cyfarwyddiadau, ar ôl hynny gallwch fynd am daith hamddenol rhwng pyst neu ras o amgylch y cwrs ar gyfer y rhai mwy cystadleuol! Mae tri chwrs o hyd amrywiol i ddewis ohonynt. Dewch â chwmpas os oes gennych un. RHAID I BOB PLENTYN DDOD GYDAG OEDOLYN. Cwrdd wrth y brif fynedfa ym Mharc Carafannau Caerdydd, Caeau Pontcanna. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Ceidwaid Parciau am ragor o fanylion ar y Rhif: - **029 20445900**.

GWEITHDY FFOTOGRAFFIAETH IAU (8)
Dydd Mercher, 8 Ebrill, 11.00am-1.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Dewch i ymuno â'r Ceidwaid yn y gweithdy ffotograffiaeth iau, gydag awgrymiadau ar sut i greu'r llun perffaith. Dewch â'ch camera eich hun ar gyfer y digwyddiad hwn os oes gennych un. Dim ond hyn a hyn o lefydd sydd ar gael a rhaid trefnu lle o flaen llaw. Ffoniwch Wasanaeth y Ceidwaid Parciau ar 029 2044 5900 am ragor o fanylion i drefnu lle. Cyfarfod yn Nhŷ Gwydr Parc y Rhath. RHAID I BOB PLENTYN DDOD GYDAG OEDOLYN.

HWYL Y PASG YM MHARC Y RHATH (9)
Dydd Sul 12 Ebrill, 2.00pm-4.00pm

£1.50 Y PLENTYN
Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Ymunwch â'r Ceidwaid Parciau ar gyfer gemau a gweithgareddau celf y Pasg! RHAID I BOB PLENTYN DDOD GYDAG OEDOLYN. Cyfarfod yn ardal chwarae'r plant, Parc y Rhath.

TAITH GERDDED CWRT INSOLE AC EGLWYS GADEIRIOL LLANDAF (10)
Dydd Mercher, 15 Ebrill, 10.00am-12.30pm

Arweinir gan Gyfeillion Cwrt Insole. Ymunwch â Chyfeillion Cwrt Insole am daith gerdded o amgylch gerddi addurniadol y maenordy godidog hwn o'r 19eg ganrif. Yna ewch am Barc Hailey ar hyd glan yr afon i Eglwys Gadeiriol

Llandaf yna ar draws Lawnt yr Eglwys Gadeiriol ac yn ôl ar hyd Fairwater Road. Cyfarfod wrth gatiau'r brif fynedfa i Gwrt Insole. Cynhelir y teithiau hyn ar y trydydd dydd Mercher o bob mis. *Pellter 4cilomedr*

SIOE FLODAU'R GWANWYN YR RHS YM MHARC BUTE (11)
Dydd Gwener, dydd Sadwrn a dydd Sul Ebrill 17, 18 a 19, 10.00am-5.30pm dydd Gwener a dydd Sadwrn a 10.00am-4.30pm dydd Sul

- AELODAU RHS O FLAEN LLAW £8.00
- Y CYHOEDD O FLAEN LLAW £9.00
- GRWPIAU O 10+ O FLAEN LLAW £8.50
- HOLL YMWELWYR AR Y DIWRNOD £10.00
- PLANT DAN 16 – AM DDIM (yng nghwmni oedolyn)

Cynhyrchwyd gan Gyngor Caerdydd mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol. Daw'r sioe yn ôl i Gaerdydd am y pumed flwyddyn, a bydd yn cynnwys dwy babell fawr o arddangosiadau blodeuol godidog, a nifer ohonynt i'w gweld yn Chelsea a chreadigaethau garddwriaethol gan rai o gynllunwyr gerddi mwyaf talentog y wlad.

- 'Rhandir Rhyngweithiol' yn adlewyrchu'r cynnydd yn y galw am lefydd i dyfu'ch blodau'ch hunain.
- Y cyfle i holi tîm cynghori cyfeillgar yr hinsawdd RHS am faterion megis newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau ar ein gerddi.
- Amrywiaeth o areithiau ac arddangosiadau gan arbenigwyr cenedlaethol a lleol, planhigion di-ri ac ategolion ar werth.
- Bwyd a chrefft Cymreig unigryw.

Mae tocynnau ar gael ar **www.rhs.org.uk/flowershows**

PLANNU AR GYFER BYWYD GWYLLT (12)
Dydd Sadwrn 18 Ebrill 12.00pm-1.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Dewch i ddarganfod rhai o'r planhigion cyffredin ac anghyffredin yng Ngardd Fotanegol y Rhath a fydd yn eich helpu i annog bywyd gwyllt. Cyfarfod yn Nhŷ Gwydr Parc y Rhath.

TAITH GERDDED ADAR FISOL YN FFERM Y FFOREST (13)
Dydd Sadwrn, 18 Ebrill, 10.00am-12.30pm (ar y trydydd dydd Sadwrn o bob mis)

Arweinir gan RSPB Caerdydd a Chyfeillion Fferm y Fforest. Taith dywysedig i adnabod adar lleol, a all amrywio o fis i fis. Dewch â sbienddrych os oes gennych un. Yn addas ar gyfer pob lefel o ddiddordeb a phob oed. Cyfarfod yng Nghanolfan y Warden, Forest Farm Road, Yr Eglwys Newydd. Cynhelir y daith hon ar y trydydd dydd Sadwrn o bob mis. *Pellter 4cilomedr*

TAITH HANES FFERM Y FFOREST (14)
Dydd Sul 19 Ebrill, 10.00am-12.00pm

Dan arweiniad Mike Wiley, Warden Cefn Gwlad a Chris James, Warden Gwirfoddol. Byddwn yn archwilio'r cyfoeth o hanes o'r oes a fu hyd heddiw ar y rhan hwn o Ddyffryn Taf. Ymunwch â ni am daith yn ôl i'r gorffennol. Cyfarfod wrth ganolfan y wardeniaid, Fferm y Fforest. *Pellter 5cilomedr*

CLWB GWYLIO BYWYD GWYLLT FFERM Y FFOREST – YMWELIAD Â GORSAF BAD ACHUB PENARTH (15)
Dydd Sadwrn 25 Ebrill 10.00am-12.00pm
£2.00 I'R RNLI

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. GWYLIO yw cangen iau'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cenedlaethol ar gyfer plant 8-12 oed. Mae Clwb GWYLIO Bywyd Gwyllt Fferm y Fforest yn ffordd ddifyr o ddysgu am fywyd gwyllt a'i gadwraeth mewn amgylchedd diogel. Cyfle i ddysgu am waith gwerthfawr yr RNLI yn Aber Hafren. Cyfarfod yng Ngorsaf Bad Achub Penarth, Cliff Hill, Yr Esplanade, Penarth. Ffoniwch Wasanaeth y Ceidwaid Parciau ar **029 2044 5903** am ragor o fanylion.

BLODAU'R GWANWYN YNG NGHOEDWIG CATH COBB, LLANEIRWG (16)
Dydd Sadwrn 25 Ebrill 2.00pm-4.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Ymunwch â'r Ceidwaid a Chyfeillion Coedwig Cath Cobb am daith o amgylch y coetir lled-hynafol hwn i ddarganfod blodau'r gwanwyn. Cyfarfod ym maes parcio Tesco, wrth ymyl y goedwig. *Pellter 1cilomedr*

TAITH TREFTADAETH MYNWENT CATHAYS (17)
Dydd Sul 26 Ebrill, 2.00pm-3.30pm

Arweinir gan Philip Amphlett, y Gwasanaethau Profedigaeth. Dewch i ddarganfod hanes un o Fynwentydd Fictoraidd mwyaf Prydain. Dyma lle'r oedd yr aristocratiaid i'r tlodion yn cael eu claddu. Cewch wybod am breswylwyr enwog a digwyddiadau yng ngorffennol Caerdydd wrth gerdded trwy'r fynwent brydferth hon. Cyfarfod wrth gatiau'r brif fynedfa yn Fairoak Road, Cathays. Ni chaniateir cŵn yn y fynwent. *Pellter 3 cilomedr*

BYWYD GWYLLT Y GWANWYN YN FFERM Y FFOREST (18)
Dydd Sul, 3 Mai, 10.00am-12.00pm

Dan arweiniad Mike Wiley, Warden Cefn Gwlad a Chris James, Warden Gwirfoddol. Ar y daith hon byddwn yn rhoi sylw arbennig i gân adar. Ymunwch â Mike a Chris am daith hamddenol o gwmpas y parc gwledig a'r warchodfa natur a dysgwch sut i adnabod adar yn ôl eu cân. Dewch â sbienddrych os oes gennych un. Cyfarfod wrth Ganolfan y Wardeniaid, Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd. *Pellter 4 cilomedr.*

BLODAU'R GWANWYN YN NANT FAWR (19)
Dydd Sul, 3 Mai, 2.00pm-4.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Ymunwch â'r Ceidwaid ar daith ysgafn trwy goetiroedd a dolydd Nant Fawr i ddarganfod rhai o'r blodau sy'n bresennol, eu hecoleg a'u defnydd i ddynoliaeth. Cyfarfod wrth y fynedfa gerllaw Ysgol Uwchradd Caerdydd. *Pellter 3cilomedr*

TAITH GERDDED DRWY GOEDWIG RADUR (20)
Nos Fercher, 6 Mai, 6.30pm-8.00pm

Arweinir gan Jim Goodwin, Warden Gwirfoddol. Ymunwch â'r wardeniaid gwirfoddol am daith o amgylch Coedwig Radur. Mae'r goedwig yn cynnwys tir parc, coed ffawydd hynafol, coed a llwyni cymysg, tir cors a phyllau. Man arbennig o ddiddordeb hanesyddol yw'r Aelwyd Haearn. Cyfarfod yn y maes parcio, i ben deheuol Taff Terrace, Radur. *Pellter 2.4 cilomedr*

TAITH HAMDDENOL YN Y BORE DRWY GOEDWIG FAWR PLYMOUTH (21)
Dydd Sadwrn, 9 Mai, 10.00am-12.30pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Ymunwch â thaith hamddenol trwy ddarn olaf y coetir lled-hynafol yn Nyffryn Elái. Cewch weld rhai o'r coed anferth a rhywfaint o'r bywyd gwyllt. Cyfarfod ym maes parcio'r Plymouth Arms, Sain Ffagan. Dylid gwisgo esgidiau addas. RHAID I BOB PLENTYN DDOD GYDAG OEDOLYN. *Pellter 3 cilomedr*

GWEITHDY FFOTOGRAFFIAETH Y GWANWYN YN Y WENALLT (22)
Dydd Sadwrn, 9 Mai, 10.00am- 12.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Cynlluniwyd y gweithdy ffotograffiaeth ar gyfer dechreuwyr a ffotograffwyr mwy profiadol â diddordeb mewn natur.Bydd cyfle i ddysgu am a thynnu lluniau clychau'r gog a blodau coetir eraill y gwanwyn. Dewch â'ch camera eich hunan. Dim ond hyn a hyn o lefydd sydd ar gael a rhaid trefnu lle o flaen llaw. Ffoniwch y Gwasanaeth Ceidwaid Parciau ar **029 2044 5900/ 029 2044 5903** am ragor o fanylion neu i drefnu lle. Cyfarfod tu allan i Dŷ Gwydr Parc Y Rhath. Mae'r gweithdai hyn ar gyfer pobl 17 mlwydd oed a throsodd. Gweler digwyddiad 75 yn ogystal. Cyfarfod ym maes parcio isaf Wenallt.

TAITH GERDDED ADAR FISOL YN FFERM Y FFOREST (23)
Dydd Sadwrn, 16 Mai, 10.00am-12.30pm
(ar y trydydd dydd Sadwrn o bob mis)

Arweinir gan RSPB Caerdydd â Chyfeillion Fferm y Fforest. Taith dywysedig i adnabod adar lleol, a all amrywio o fis i fis. Dewch â sbienddrych os oes gennych un. Yn addas ar gyfer pob lefel o ddiddordeb a phob oed. Cyfarfod yng Nghanolfan y Warden, Forest Farm Road, Yr Eglwys Newydd. Cynhelir y daith hon ar y trydydd dydd Sadwrn o bob mis. *Pellter 4 cilomedr*

TAITH YSTLUMOD YM MYNWENT CATHAYS (24)
Nos Fawrth 19 Mai, 8.30pm-10.30pm

Arweinir gan Grŵp Ystlumod Caerdydd a Chyfeillion Mynwent Cathays. Mae Grŵp Ystlumod Caerdydd a Chyfeillion Mynwent Cathays wedi trefnu taith ac araith ystlumod o amgylch Mynwent Cathays i ddarganfod mwy am yr ystlumod y mae'r fynwent yn gartref iddynt. Mae Mynwent Cathays yn fynwent Fictoraidd fawr wedi'i chynnal yn dda ac sy'n cadw'r rhan fwyaf o'i chynllun gwreiddiol a phlanhigion bytholwyrdd sy'n gwneud cynefinoedd bwydo gwych ar gyfer ystlumod y ddinas. Mae'r fynwent hefyd yn gartref i nifer o adar eraill, anifeiliaid, pryfed a blodau. Cyfarfod wrth y gatiau i'r brif fynedfa yn Fairoak Road.

DEALL ANGLADDAU (25)
Nos Fawrth 19 Mai, 6.00pm-9.00pm

Arweinir gan y Gwasanaethau Profedigaeth. Dysgwch sut i reoli angladd a'r costau er mwyn cael y math o angladd a hoffech. Beth yw ysgutor? Oes rhaid i chi ddefnyddio trefnydd angladdau? Beddi cardfwrdd – da neu ddrwg? Teithiau opsiynol 'tu ôl i'r llenni'. Cyfarfod yng Nghapel Briwnant yn Amlosgfa Thornhill. Dim ond hyn a hyn o lefydd sydd ar gael a rhaid trefnu lle o flaen llaw. Cysylltwch â **029 20623 294** i drefnu lle. Ni chaniateir cŵn yn y fynwent.

TAITH GERDDED CWRT INSOLE AC EGLWYS GADEIRIOL LLANDAF (26)
Dydd Mercher, 20 Mai,10.00am-12.30pm

Arweinir gan Gyfeillion Cwrt Insole. Ymunwch â Chyfeillion Cwrt Insole am daith gerdded o amgylch gerddi addurniadol y maenordy godidog hwn o'r 19eg ganrif. Yna ewch am Barc Hailey ar hyd glan yr afon i Eglwys Gadeiriol Llandaf yna ar draws Lawnt yr Eglwys Gadeiriol ac yn ôl ar hyd Fairwater Road. Cyfarfod wrth gatiau'r brif fynedfa i Gwrt Insole. Cynhelir y teithiau hyn ar y trydydd dydd Mercher o bob mis. *Pellter 4 cilomedr*

ARDDANGOSIAD BASGEDI CROG YM MHARC FICTORIA (27)
Dydd Sadwrn, 23 Mai, 10.00-12.00pm, 2.00pm-4.00pm (dwy sesiwn)

£12.50 Y FASGED

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Gwnewch eich basged crog godidog eich hun ar gyfer yr haf. Cymorth a chyngor ymarferol gan y Ceidwaid Parciau. Darperir popeth a fydd angen arnoch i wneud y fasged. Cyfarfod wrth y Pafiliwn Bowlio, Parc Fictoria. Dim ond hyn a hyn o lefydd sydd ar gael a rhaid trefnu lle o flaen llaw. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Ceidwaid Parciau ar Ffôn: **029 2044 5900**. Gweler hefyd ddigwyddiad rhif 29.

CLWB GWYLIO BYWYD GWYLLT FFERM Y FFOREST – DAL GWYFYNOD (28)
Dydd Sadwrn, 23 Mai, 10.00am-12.00pm

£1.00 Y PEN
Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. GWYLIO yw cangen iau'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cenedlaethol ar gyfer plant 8-12 oed. Mae Clwb GWYLIO Bywyd Gwyllt Fferm y Fforest yn ffordd ddifyr o ddysgu am fywyd gwyllt a'i gadwraeth mewn amgylchedd diogel. Dewch i weld beth a ddaliwyd yn y trap gwyfynod ers y noson gynt! Rhyddheir yr holl wyfynod ar ôl y digwyddiad. Cyfarfod yng Nghanolfan y Wardeniaid, Fferm y Fforest. Ffoniwch Wasanaeth y Ceidwaid Parciau ar **029 2044 5903** am ragor o fanylion.

ARDDANGOSIAD BASGEDI CROG YN NHŶ GWYDR PARC Y RHATH (29)
Dydd Sul, 24 Mai, 10.00am-12.00pm, 2.00pm-4.00pm (dwy sesiwn)

£12.50 Y FASGED
Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Gwnewch eich basged crog godidog eich hun ar gyfer yr haf. Cymorth a chyngor ymarferol gan y Ceidwaid Parciau. Darperir popeth a fydd angen arnoch i wneud y fasged. Cyfarfod yn Nhŷ Gwydr Parc y Rhath. Dim ond hyn a hyn o lefydd sydd ar gael a rhaid trefnu lle o flaen llaw. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Ceidwaid Parciau ar Ffôn: **029 2044 5900**. Gweler hefyd ddigwyddiad rhif 27.

BWYDYDD Y FFOREST (30)
Nos Fercher, 27 Mai, 7.00pm

£2.50 Y PEN
Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Ewch am dro hamddenol o amgylch Fferm y Fforest a darganfod y danteithion blasus sydd gan Natur i'w cynnig adeg yma o'r flwyddyn. Dilynir gan sesiwn flasu o rai danteithion bendigedig. Cyfarfod yng Nghanolfan Warden Fferm y Fforest, Forest Farm Road, Yr Eglwys Newydd. RHAID I BOB PLENTYN DDOD

TAITH GERDDED CEFNFFORDD GOGLEDD CAERDYDD O FFYNNON TAF I LYS-FAEN (31)
Dydd Sadwrn, 30 Mai, 10.00am-4.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Taith linol yn archwilio'r llwybr cefnffordd coediog i ogledd Caerdydd, gan gychwyn yng ngorsaf drenau Ffynnon Taf ac yn dod i ben ym Mharc Gwledig Cefn Onn, Llys-faen. Ar ôl cerdded i fyny Craig yr Allt ceir golygfeydd panoramig yn edrych dros Gaerdydd a Chaerffili. Cewch ymlacio ar y siwrne'n ôl ar y trên i orsaf drenau Ffynnon Taf. Mae'r digwyddiad hwn yr un fath â digwyddiad rhif 72 ond i'r gwrthwyneb! Cofiwch ddod ag arian ar gyfer y trên. Cyfarfod yng ngorsaf drenau Ffynnon Taf. MAE DILLAD GLAW AC ESGIDIAU CERDDED CADARN YN HANFODOL AR GYFER Y GWEITHGAREDD HWN. *Pellter 11cilomedr*

PARC BUTE – BYWYD TIRLUN (32)
Dydd Sul, 31 Mai, 2.00pm-4.00pm

Arweinir gan Rosie James, Swyddog Tirlunio. Taith trwy Barc Bute yn edrych ar sut defnyddiwyd y tir yn gysylltiedig â'r safle cyn iddo fod yn erddi'r Castell. Bydd y daith yn cynnwys rhan gyfan y parc sydd wedi'i ffensio rhwng Castell Caerdydd a Blackweir, ac esbonnir gweithgarwch amaethyddol, crefyddol a diwydiannol cynnar o'r cyfnod Normanaidd i'r cyfnod Fictoraidd cynnar a chyflwyniad i rai o'r bobl a fu'n byw a gweithio yn y tirlun. Cyfarfod ym Mynedfa Porth y Gogledd i Barc Bute, y tu ôl i Gastell Caerdydd. *Pellter 4.5cilomedr*

TAITH TEGEIRIANAU YNG NGWARCHODFA NATUR LLEOL (GNLL) HOWARDIAN (33)
Dydd Sadwrn 6 Mehefin, 2.00pm-4.00pm

Dan arweiniad y Gwasanaeth Ceidwaid Parciau a Chyfeillion GNLL Howardian. Dewch i weld y rhywogaethau tegeirianau sy'n tyfu yn y warchodfa natur ddinesig hon. Taith dan arweiniad y wardeniaid a'r grŵp cyfeillion. Cyfarfod wrth fynedfa David Lloyd ar Ipswich Road. *Pellter 2 cilomedr.*

TAITH YSTLUMOD YM MYNWENT CATHAYS (34)
Dydd Mawrth 9 Mehefin 7.00pm-8.30pm

Arweinir gan Malcolm Frazer a Chyfeillion Mynwent Cathays. Taith dywysedig dan arweiniad Malcolm Frazer, Swyddog Coedyddiaeth y Parciau yn edrych ar y gwahanol goed ym Mynwent Cathays sy'n un o'r mynwentydd Fictorianaidd mwyaf ym Mhrydain. Bydd Cyfeillion Mynwent Cathays yn ymuno â Malcolm Frazer i roi manylion o hanes Caerdydd tra'n cerdded trwy'r fynwent brydferth hon. Cyfarfod wrth Fynedfa Fairoak Road, Mynwent Cathays. Ni chaniateir cŵn yn y fynwent. *Pellter 3cilomedr*

EHEDYDDION SY'N CANU A TEGEIRIANAU GWENYNOG YM MHARC GRANGEMORE (35)
Dydd Sadwrn, 13 Mehefin, 10.00am-12.00pm

Arweinir gan Chris Powell, Swyddog Cadwraeth. Mae Parc Grangemoore yn lleoliad anarferol wedi'i leoli ar hen safle tirlenwi. Mae'r parc wedi'i drawsffurfio'n lleoliad ucheldir cymreig anffurfiol â waliau carreg sych, tir pori sy'n gyfoeth o flodau a chorstiroedd. Mae golygfeydd godidog o'r afon ac mae'r copa yn cynnig golygfeydd panoramig o ganol y ddinas a Bae Caerdydd sy'n newid yn gyson. Taith o wrthgyferbyniadau arbennig â digonedd o ddiddordeb. Cyfarfod wrth y fynedfa wrth y pwll gyferbyn â McDonalds yng nghanolfan siopa Bae Caerdydd. *Pellter 2.4 cilomedr*

HELFA PRYFED MAWR YM MHARC LLANISIEN (36)
Dydd Sadwrn 13 Mehefin, 10.00am-12.00pm a 2.00pm-4.00pm (Dwy sesiwn)

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Dewch i ddathlu Wythnos Bioamrywiaeth Cymru ac ymunwch yn yr helfa ar gyfer creaduriaid coetir mawr a bach yng Nghoedlannau Coed Cochwyn (Parc Llanisien). Byddwn yn chwilio'r coetir am bryfetach a'r pwll i ddod o hyd i beth sy'n byw dan y dŵr. Esgidiau addas yn hanfodol. Cyfarfod ym maes parcio'r ystafelloedd newid Parc Llanisien, Newborough Avenue. RHAID I BOB PLENTYN DDOD GYDAG OEDOLYN.

GWYLIO'R PWLL YM MHARC Y MYNYDD BYCHAN (37)
Dydd Sul, 14 Mehefin, 2.00pm-3.30pm

Dan arweiniad Cyfeillion Coetir Parc y Mynydd Bychan. Ceir myrdd o fywyd yn y pwll. Dewch i ddarganfod eu ffordd o fyw amrywiol o elod cigysol i fadfallod dŵr cribog. Yn arbennig o addas i deuluoedd sydd eisiau gwerthfawrogi a dysgu mwy am natur yn eu hardal leol. Cyfarfod wrth Bwll Parc y Mynydd Bychan, 100m o Faes Parcio'r Rheilffordd Model.

TAITH GERDDED TREFTADAETH PARC HAILEY (38)
Dydd Sul, 14 Mehefin, 2.00pm-3.30pm

Dan arweiniad Cyfeillion Parc Hailey. Ymunwch â ni am daith o amgylch Parc Hailey, â gwybodaeth hanesyddol am y parc. Dewch i ddarganfod gweddillion y rhyd ar draws Afon Taf. Pam mai Radyr Road yw'r enw ar y ffordd. Camlas Morgannwg a oedd yn rhedeg trwy'r parc unwaith a tharddiad y parc ei hun. Stopio am luniaeth ar y ffordd o amgylch. Croeso i bawb o bob oed. RHAID I BOB PLENTYN FOD YNG NGHWMNI OEDOLYN. Croeso i gŵn. Cyfarfod yn y maes parcio ym Mharc Hailey. *Pellter 3cilomedr*

BLWYDDYN YM MYWYD RHOSYN (39)
Dydd Mercher, 17 Mehefin, 2.00pm-3.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Cymorth a chyngor ymarferol gan y Ceidwaid Parciau ar ofalu am eich rhosod. Bydd y digwyddiad hwn yn ymwneud â thorri pennau gwywedig. Gweler hefyd ddigwyddiadau rhifau 1 a 78. Cyfarfod yn Nhŷ Gwydr Parc y Rhath.

TAITH GERDDED CWRT INSOLE AC EGLWYS GADEIRIOL LLANDAF (40)
Dydd Mercher, 17 Mehefin, 10.00am-12.30pm

Arweinir gan Gyfeillion Cwrt Insole. Ymunwch â Chyfeillion Cwrt Insole am daith gerdded o amgylch gerddi addurniadol y maenordy godidog hwn o'r 19eg ganrif. Yna ewch am Barc Hailey ar hyd glan yr afon i Eglwys Gadeiriol Llandaf yna ar draws Lawnt yr Eglwys Gadeiriol ac yn ôl ar hyd Fairwater Road. Cyfarfod wrth gatiau'r brif fynedfa i Gwrt Insole. Cynhelir y teithiau hyn ar y trydydd dydd Mercher o bob mis. *Pellter 4 cilomedr*

TAITH GERDDED ADAR FISOL YN FFERM Y FFOREST (41)
Dydd Sadwrn, 20 Mehefin, 10.00am-12.30pm (Trydydd dydd Sadwrn bob mis)

Arweinir gan RSPB Caerdydd a Chyfeillion Fferm y Fforest. Taith dywysedig i adnabod adar lleol, a all amrywio o fis i fis. Dewch â sbienddrych os oes gennych un. Yn addas ar gyfer pob lefel o ddiddordeb a phob oed. Cyfarfod yng Nghanolfan y Warden, Forest Farm Road, Yr Eglwys Newydd. Cynhelir y daith hon ar y trydydd dydd Sadwrn o bob mis. *Pellter 4 cilomedr*

BIOAMRYWIAETH FFERM Y FFOREST (42)
Dydd Sul, 21 Mehefin, 10.00am-12.00pm

Dan arweiniad Mike Wiley, Warden Cefn Gwlad a Chris James, Warden Gwirfoddol, Fferm y Fforest. Byddwn yn edrych ar fosaig cyfoethog cynefinoedd amrywiol y gwarchodfeydd a'r cyfoeth amrywiol o fywyd gwyllt sy'n eu cyfanheddu. Dewch â sbienddrych os oes gennych un. Cyfarfod wrth ganolfan y wardeniaid, Fferm y Fforest. *Pellter 4 cilomedr*

NOSON YSTLUMOD YM MHARC BUTE (43)
Nos Fercher, 24 Mehefin, 8.45pm-10.45pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Dewch i weld yr ystlumod sy'n byw ym Mharc Bute gan ddefnyddio canfodydd ystlumod i ddod o hyd i'r creadur nos celgar hwn. Cyfarfod yn ystafelloedd newid Blackweir wrth ymyl yr orsaf ambiwlans oddi ar Heol y Gogledd. Dewch â thortsh gyda chi. Nid oes ond hyn a hyn o lefydd ar gael a Hyn a hyn o lefydd sydd ar gael a rhaid trefnu lle o flaen llaw drwy ffonio'r Gwasanaeth Ceidwaid Parciau ar **029 2044 5900**. *Pellter 3 cilomedr*

CLWB GWYLIO BYWYD GWYLLT FFERM Y FFOREST – HELFA PRYFED MAWR PARC LLANISIEN (44)
Dydd Sadwrn, 27 Mehefin, 10.00am-12.00pm

£1.00 Y PEN

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. GWYLIO yw cangen iau'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cenedlaethol ar gyfer plant 8-12 oed. Mae Clwb GWYLIO Bywyd Gwyllt Fferm y Fforest yn ffordd ddifyr o ddysgu am fywyd gwyllt a'i gadwraeth mewn amgylchedd diogel. Dewch draw ac ymunwch yn yr helfa ar gyfer creaduriaid glaswelltir mawr a bach yng Nghoedlannau Coed Cochwyn (Parc Llanisien). Byddwn yn chwilio'r coetir am bryfetach a'r pwll i ddod o hyd i beth sy'n byw dan y dŵr. Esgidiau addas yn hanfodol. Cyfarfod ym maes parcio'r ystafelloedd newid, Parc Llanisien, Newborough Avenue. Ffoniwch Wasanaeth y Ceidwaid Parciau ar **029 2044 5903** am ragor o fanylion.

DARGANFOD DREIGIAU YN FFERM Y FFOREST (45)
Dydd Sadwrn, 27 Mehefin, 10.00am-12.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Cyfle i ddarganfod a dysgu am ffordd o fyw anhygoel gweision y neidr a mursennod. Ar ôl cyflwyno'r creaduriaid prydferth hyn byddwn yn symud tu



allan i gael tro ar dipio yn y pwll ym mhwll newydd Fferm y Fforest. Yn olaf byddwn yn symud yn ôl i Ganolfan y Warden am weithgareddau celf. RHAID I BOB PLENTYN DDOD GYDAG OEDOLYN. Cyfarfod wrth ganolfan y wardeniaid, Fferm y Fforest.

TAITH FOTANEGOL PARC Y RHATH (46)
Nos Fercher, 8 Gorffennaf, 7.00pm-9.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau.Taith hamddenol o amgylch gerddi Parc y Rhath yn edrych ac yn gwrando ar y cyfoeth o blanhigion a choed sy'n tyfu yno, gan gynnwys casgliad coed campus Parc y Rhath. Cyfarfod yn Nhŷ Gwydr Parc y Rhath. *Pellter 1 cilomedr*

Y 29AIN DIWRNOD AGORED BLYNYDDOL YM MHARC Y RHATH ER BUDD ELUSENNAU LLEOL (47)
Dydd Sadwrn, 11 Gorffennaf 12.00pm-5.00pm

Trefnir gan Gyngor Sir Caerdydd. Prynhawn o adloniant am ddim a hwyl i bawb – cerddoriaeth, gemau, arddangosiadau. Dyma ddigwyddiad codi arian pwysig â'r holl elw'n mynd i elusennau lleol. Cynhelir y Diwrnod Agored gerllaw ardal chwarae'r plant.

DIWRNOD AGORED TŶ GWYDR PARC Y RHATH (48)
Dydd Sadwrn, 11 Gorffennaf 10.30am-6.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Dewch i Dŷ Gwydr Parc y Rhath i weld planhigion o bedwar ban byd. Llwybrau a chwisiau a lliwio am ddim. Dewch ag unrhyw ymholiadau garddwriaethol a byddwn yn gwneud ein gorau i gynorthwyo.

TAITH TREFTADAETH MYNWENT CATHAYS (49)
Dydd Sul, 12 Gorffennaf, 10.30am & 2.00pm

Arweinir gan Philip Amphlett, y Gwasanaethau Profedigaeth. I goffáu 150 mlynedd ers agor Mynwent Cathays cynhelir dwy daith dywysedig ym Mynwent Cathays. Cyfarfod wrth brif fynedfa'r fynwent yn Fairoak Road. Dewch i ddarganfod hanes un o Fynwentydd Fictoraidd mwyaf Prydain. Ni chaniateir cŵn yn y fynwent. Hyd un awr a hanner. *Pellter 3 cilomedr*

PARC BUTE – TAITH TRWY AMSER (50)
Dydd Sul, 12 Gorffennaf, 2.00pm-3.30pm

Arweinir gan Rosie James, Swyddog Tirlunio. Taith gerdded drwy amser, yn dilyn datblygiad yr ardal a adwaenir heddiw fel Parc Bute, o'r cyfnod Rhufeinig hyd heddiw. Dewch i ddarganfod cynllun cudd ardal ddiwydiannol canoloesol Caerdydd, dysgu am gwrs newidiol Afon Taf a darganfod sut bu i Ardalyddion Bute ddylanwadu ar ddatblygiad un o barciau mwyaf poblogaidd Caerdydd. Cyfarfod wrth Borth y Gogledd ym Mharc Bute, tu ôl i Gastell Caerdydd. *Pellter 3 cilomedr*

NOSON YSTLUMOD YM MHARC Y RHATH (51)
Nos Fercher, 15 Gorffennaf, 9.00pm-11.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Dewch draw i ddysgu am yr ystlumod. Ai aderyn yw ystlum? Sut mae ystlumod yn dod o hyd i'w ffordd gyda'r nos? A yw ystlumod yn sugnwyr gwaed? Atebir y cwestiynau hyn a llawer mwy. Byddwn hefyd yn cael hyd i'r ystlumod sy'n byw ym Mharc y Rhath gan ddefnyddio datguddwyr ystlumod. Dewch â thortsh gyda chi. Dim ond hyn a hyn o lefydd sydd ar gael a rhaid trefnu o flaen llaw drwy ffonio'r Gwasanaeth Ceidwaid Parciau ar 029 2044 5903. Cyfarfod wrth Brif Giât Promenâd Parc y Rhath. *Pellter 3 cilomedr*

TAITH BYWYD GWYLLT YR HAF (52)
Dydd Mercher, 15 Gorffennaf, 2.00pm-4.00pm

Arweinir gan Mike Wiley, Warden Cefn Gwlad a Chris James, Warden Gwirfoddol. Mwynhewch daith hamddenol yn y prynhawn o amgylch y parc gwledig yn edrych ar y fflora a ffawna. Dewch â sbienddrych os oes gennych un. Cyfarfod wrth ganolfan y wardeniaid, Fferm y Fforest. *Pellter 4 cilomedr*

TAITH GERDDED CWRT INSOLE AC EGLWYS GADEIRIOL LLANDAF (53)
Dydd Mercher, 15 Gorffennaf, 10.00am-12.30pm

Arweinir gan Gyfeillion Cwrt Insole. Ymunwch â Chyfeillion Cwrt Insole am daith gerdded o amgylch gerddi addurniadol y maenordy godidog hwn o'r 19eg ganrif. Yna ewch am Barc Hailey ar hyd glan yr afon i Eglwys Gadeiriol Llandaf yna ar draws Lawnt yr Eglwys Gadeiriol ac yn ôl ar hyd Fairwater Road. Cyfarfod wrth gatiau'r brif fynedfa i Gwrt Insole. Cynhelir y teithiau hyn ar y trydydd dydd Mercher o bob mis. *Pellter 4 cilomedr*

TAITH GERDDED ADAR FISOL YN FFERM Y FFOREST (54)
Dydd Sadwrn, 18 Gorffennaf, 10.00am-12.30pm (ar y trydydd dydd Sadwrn o bob mis)

Arweinir gan RSPB Caerdydd a Chyfeillion Fferm y Fforest. Taith dywysedig i adnabod adar lleol, a all amrywio o fis i fis Dewch â sbienddrych os oes gennych un. Yn addas ar gyfer pob lefel o ddiddordeb a phob oed. Cyfarfod yng Nghanolfan y Warden, Forest Farm Road, Yr Eglwys Newydd. Cynhelir y daith hon ar y trydydd dydd Sadwrn o bob mis. *Pellter 4 cilomedr*

DIWRNOD CHWILOD YN NANT FAWR (55)
Dydd Sul, 19 Gorffennaf, 2.00pm-4.00pm

Arweinir gan y Gwasanaeth Ceidwaid Parciau, Prifysgol Caerdydd a Chyfeillion Nant Fawr. Dewch draw i weld pa greaduriaid sy'n byw yn nyfnderoedd Nant Fawr. Dewch ag esgidiau glaw gyda chi. Rhaid i bob plentyn ddod gydag oedolyn. Cyfarfod ym Maes Parcio Gwarchodfa Llanisien oddi ar Rhydypenau Road.

FFLORA A FFAWNA PARC HAILEY (56)
Dydd Iau, 23 Gorffennaf, 6.30pm-8.00pm
£1.00 Am de/coffi a chacen
Arweinir gan Gymdeithas Naturiaethwyr Caerdydd a Chyfeillion Parc Hailey. Taith a arweinir gan Gymdeithas Naturiaethwyr Caerdydd a Chyfeillion Parc Hailey, i adnabod rhai o'r adar, planhigion a phryfed ar y ffordd. Croeso i hwyr ddyfodiaid ymuno. Mae teithiau'n cychwyn yn y maes parcio, ymlaen tuag at y ddôl, gan stopio am luniaeth, a dychwelyd yn ôl i'r maes parcio. Croeso i bawb o bob oed, rhaid i bob plentyn fod yng nghwmni oedolyn. Dim cŵn yn anffodus. Cyfarfod ym maes parcio, Parc Hailey. *Pellter 1.5 cilomedr*

CLWB GWYLIO BYWYD GWYLLT FFERM Y FFOREST – YMARFER MAPIO (57)
Dydd Sadwrn 25 Gorffennaf,10.00am-12.00pm
£1.50 Y PLENTYN
Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. GWYLIO yw cangen iau'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cenedlaethol ar gyfer plant 8-12 oed. Mae Clwb GWYLIO Bywyd Gwyllt Fferm y Fforest yn ffordd ddifyr o ddysgu am fywyd gwyllt a'i gadwraeth mewn amgylchedd diogel. Helpwch y Ceidwaid greu map cynefin o'r Warchodfa. Cyfarfod wrth ganolfan y wardeniaid, Fferm y Fforest. Ffoniwch Wasanaeth y Ceidwaid Parciau ar **029 2044 5903** am ragor o fanylion.

DIWRNOD HWYL Y CEIDWAID YM MHARC FICTORIA (58)
Dydd Mercher, 29 Gorffennaf 1.00pm-4.00pm
£2.00 Y PLENTYN
Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Ffordd hwyliog i ddysgu am yr amgylchedd trwy gelf a gemau. Hwyl i'r teulu i gyd! Dewch draw ac ymunwch yn y gweithgareddau a gemau celf. Hwyl i'r teulu cyfan. RHAID I BOB PLENTYN DDOD GYDAG OEDOLYN. Cyfarfod wrth y llwyfan, Parc Fictoria.

GWEITHDY PYSGOTA YM MHARC Y RHATH (59)
Dydd Mercher 5 Awst 10.30am-2.30pm
£1.50 Y PLENTYN
Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid! Parciau. Dysgwch sut i bysgota dan arweiniad arbenigol y Ceidwaid! Byddwn yn rhoi cyngor, abwyd a'r holl offer sydd ei angen am ddiwrnod da o bysgota. Mae dillad tywydd gwlyb yn hanfodol ar gyfer y gweithgaredd hwn yn ogystal â chinio parod a diod. Cyfarfod wrth Brif Giât Promenâd Parc Y Rhath, Lake Road West. Hyn a hyn o lefydd sydd ar gael a rhaid trefnu lle o flaen llaw, cysylltwch â'r Gwasanaeth Ceidwaid Parciau ar **029 2044 5900**. RHAID I BOB PLENTYN FOD DROS 8 OED A CHYDAG OEDOLYN.

TAI CHWILOD (60)
Dydd Gwener 7 Awst,10.00am-12.00pm
£1.00 Y PEN
Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Mae llefydd i bryfed aros dros y gaeaf yn brin felly pam na rowch help llaw iddynt a rhoi cynnig ar wneud tai i'r chwilod yn eich gardd. Cyfarfod wrth Ganolfan y Wardeniaid, Forest Farm Road, Yr Eglwys Newydd. RHAID I BOB PLENTYN DDOD GYDAG OEDOLYN.

TAITH YSTLUMOD YN NANT FAWR (61)
Dydd Sul 9 Awst, 9.00pm-11.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Sugnwyr Gwaed yn Nant Fawr? Na – ond efallai ddigon o rywogaethau eraill o ystlumod yn y coedlannau ac wrth ymyl y warchodfa. Cyfarfod wrth y fynedfa i Nant Fawr wrth ymyl prif giatiau Ysgol Uwchradd Caerdydd. Dewch â thortsh gyda chi. Hyn a hyn o lefydd sydd ar gael a rhaid trefnu lle o flaen llaw, cysylltwch â'r Gwasanaethau Parciau ar **029 2044 5900/029 2044 5903**.

TAITH GERDDED YSTLUMOD YN LLYN HENDRE (62)
Dydd Mercher 12 Awst 9.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Ymunwch â'r Ceidwaid i ddarganfod cuddfannau dirgel yr ystlumod yn Llyn Hendre. Cyfarfod yn y maes parcio ger Llyn Hendre oddi ar Cypress Drive. Dewch â thortsh gyda chi. Nid oes ond hyn a hyn o lefydd ar gael a rhaid trefnu lle o flaen llaw, ffoniwch y Gwasanaeth Ceidwaid Parciau ar **029 2044 5900**. *Pellter 3 cilomedr*

TAITH GERDDED ADAR FISOL YN FFERM Y FFOREST (63)
Dydd Sadwrn, 15 Awst, 10.00am-12.30pm (ar y trydydd dydd Sadwrn o bob mis)

Arweinir gan RSPB Caerdydd a Chyfeillion Fferm y Fforest. Taith dywysedig i adnabod adar lleol, a all amrywio o fis i fis. Dewch ag ysbienddrych os oes gennych un. Yn addas ar gyfer pob lefel o ddiddordeb a phob oed. Cyfarfod yng Nghanolfan y Warden, Forest Farm Road, Yr Eglwys Newydd. Cynhelir y daith hon ar y trydydd dydd Sadwrn o bob mis. *Pellter 4 cilomedr*

TAITH GERDDED CWRT INSOLE AC EGLWYS GADEIRIOL LLANDAF (64)
Dydd Mercher 19 Awst, 10.00am-12.30pm

Arweinir gan Gyfeillion Cwrt Insole. Ymunwch â Chyfeillion Cwrt Insole am daith gerdded o amgylch gerddi addurniadol y maenordy godidog hwn o'r 19eg ganrif. Yna ewch am Barc Hailey ar hyd glan yr afon i Eglwys Gadeiriol Llandaf yna ar draws Lawnt yr Eglwys Gadeiriol ac yn ôl ar hyd Fairwater Road. Cyfarfod wrth gatiau'r brif fynedfa i Gwrt Insole. Cynhelir y teithiau hyn ar y trydydd dydd Mercher o bob mis. *Pellter 4 cilomedr*

GŴYL ALLAN O'R COED CAERDYDD PARC BUTE (65)
Dydd Sul, 23 Awst, 10.30am-4.30pm

Dan arweiniad Gwasanaeth y Ceidwaid Parciau a Chris Powell, Swyddog Cadwraeth Parciau. Digwyddiad tir coediog i'r teulu cyfan gyda chelf a chrefft tir coediog, llwybrau natur, padlo yn eich cwrwgl eich hunan a nifer o weithgareddau difyr eraill. Bydd

cynhyrchion lleol hefyd ar gael a gallwch fwynhau danteithion cartref hamddenol yng Nghaffi Hardwood.

PARC BUTE – DIGWYDDIAD I'R TEULU (66)
Dydd Sul, 30 Awst, 2.00pm-3.30pm

Arweinir gan Rosie James, Swyddog Tirlunio. Taith gerdded trwy'r parc yn edrych ar nodweddion y tirwedd a'r cynllun a sut mae'r rhain wedi cael eu dylanwadu gan Ardalyddion Bute rhwng 1766 a 1947. Bydd y daith hon yn helpu i ddatod gwahanol bersonoliaethau'r pedwar cenhedlaeth o Ardalyddion a oedd yn berchen ar Gastell Caerdydd a'i ystadau, ac yn dangos sut mae diddordebau gwahanol wedi cyfrannu at ddatblygiad y tirwedd a welwn heddiw. Cyfarfod wrth Borth y Gogledd ym Mharc Bute, tu ôl i Gastell Caerdydd. *Pellter 3 cilomedr*

GWEITHDY PYSGOTA YN LLYN HENDRE (67)
Dydd Mercher, 2 Medi 10.30am-2.30pm

£1.50 Y PLENTYN

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Dysgwch sut i bysgota dan arweiniad arbenigol gan y Ceidwaid! Byddwn yn rhoi cyngor, abwyd a'r holl offer sydd ei angen am ddiwrnod da o bysgota. Mae dillad tywydd gwlyb yn hanfodol ar gyfer y gweithgaredd hwn yn ogystal â chinio parod a diod. Cyfarfod yn y maes parcio ger Llyn Hendre oddi ar Cypress Drive. Hyn a hyn o lefydd sydd ar gael a rhaid trefnu lle o flaen llaw, cysylltwch â'r Gwasanaeth Ceidwaid Parciau ar **029 2044 5900**. RHAID I BOB PLENTYN FOD DROS 8 OED A CHYDAG OEDOLYN.

BWYDYDD Y FFOREST (68)
Dydd Sadwrn 5 Medi 6.00pm

£2.50 Y PEN

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Dewch am daith hamddenol o gwmpas Parc Gwledig Fferm y Fforest i ddarganfod y danteithion blasus sydd gan Natur i'w cynnig yr adeg hon o'r flwyddyn. Dilynir hyn gan sesiwn flasu rhai o'r danteithion bendigedig. Cyfarfod wrth Ganolfan y Wardeniaid, Forest Farm Road, Yr Eglwys Newydd. RHAID I BOB PLENTYN FOD YNG NGHWMNI OEDOLYN.

DEALL ANGLADDAU (69)
Dydd Mawrth 8 Medi 2.00pm-5.00pm

Arweinir gan y Gwasanaethau Profedigaeth. Dysgwch sut i reoli angladd a'r costau er mwyn cael y math o angladd a hoffech. Beth yw ysgutor? Oes rhaid i chi ddefnyddio trefnydd angladdau? Beddi cardfwrdd – da neu ddrwg? Teithiau opsiynol 'tu ôl i'r llenni'. Cyfarfod yng Nghapel Briwnant yn Amlosgfa Thornhill. Dim ond hyn a hyn o lefydd sydd ar gael a rhaid trefnu lle o flaen llaw. Cysylltwch â **029 20623 294** i drefnu lle. Ni chaniateir cŵn yn y fynwent.

TAITH GERDDED CWRT INSOLE AC EGLWYS GADEIRIOL LLANDAF (70)
Dydd Mercher, 16 Medi 10.00am-12.30pm

Arweinir gan Gyfeillion Cwrt Insole. Ymunwch â Chyfeillion Cwrt Insole am daith gerdded o amgylch gerddi addurniadol y maenordy godidog hwn o'r 19eg ganrif. Yna ewch am Barc Hailey ar hyd glan yr afon i Eglwys Gadeiriol Llandaf yna ar draws Lawnt yr Eglwys Gadeiriol ac yn ôl ar hyd Fairwater Road. Cyfarfod wrth gatiau'r brif fynedfa i Gwrt Insole. Cynhelir y teithiau hyn ar y trydydd dydd Mercher o bob mis. *Pellter 4 cilomedr*

TAITH GERDDED ADAR FISOL YN FFERM Y FFOREST (71)
Dydd Sadwrn 19 Medi, 10.00am-12.30pm (Trydydd dydd Sadwrn bob mis)

Arweinir gan RSPB Caerdydd â Chyfeillion Fferm y Fforest. Taith dywysedig i adnabod adar lleol, a all amrywio o fis i fis. Dewch ag ysbienddrych os oes gennych un. Yn addas ar gyfer pob lefel o ddiddordeb a phob oed. Cyfarfod yng Nghanolfan y Warden, Forest Farm Road, Yr Eglwys Newydd. Cynhelir y daith hon ar y trydydd dydd Sadwrn o bob mis. *Pellter 4 cilomedr*

TAITH GERDDED CEFNFFORDD GOGLEDD CAERDYDD O GEFN ONN I FFYNNON TAF (72)
Dydd Sadwrn 19 Medi 10.00am-4.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Taith linol yn archwilio'r llwybr cefnffordd coediog i ogledd Caerdydd, gan gychwyn ym Mharc Gwledig Cefn Onn ac yn dod i ben yng ngorsaf drenau Ffynnon Taf. Ar ôl cerdded i fyny Craig yr Allt ceir golygfeydd panoramig yn edrych dros Gaerdydd a Chaerffili. Mae taith hamddenol hir i lawr yr allt yn mynd â chi at lwybr Taith Taf i orsaf drenau Ffynnon Taf, ble bydd modd cael gorffwys ar y siwrne drên yn ôl i orsaf Llys-faen a Thornhill. Mae'r digwyddiad hwn yr un fath â digwyddiad rhif 31 ond i'r gwrthwyneb! Cofiwch ddod ag arian ar gyfer y trên. Cyfarfod ym maes parcio Cefn Onn. MAE DILLAD GLAW AC ESGIDIAU CERDDED CADARN YN HANFODOL AR GYFER Y GWEITHGAREDD HWN. *Pellter 11 cilomedr*

CLWB GWYLIO BYWYD GWYLLT FFERM Y FFOREST (73)
Dydd Sadwrn 26 Medi, 10am-12.00pm

£1.00 Y PLENTYN

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. GWYLIO yw cangen iau'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cenedlaethol ar gyfer plant 8-12 oed. Mae Clwb GWYLIO Bywyd Gwyllt Fferm y Fforest yn ffordd ddifyr o ddysgu am fywyd gwyllt a'i gadwraeth mewn amgylchedd diogel. Ffoniwch Wasanaeth y Ceidwaid Parciau ar **029 2044 5903** am ragor o fanylion. Cyfarfod wrth Ganolfan y Wardeniaid, Fferm y Fforest.

ADFER PARC BUTE (74)
Dydd Sul, 27 Medi, 2.00pm-3.30pm

Arweinir gan John Green, Swyddog

Tirlunio. Taith o gwmpas Parc Bute yn edrych ar gynnydd rhai o'r cynigion a weithredir fel rhan o becyn gwaith adfer y parc pum miliwn o bunnoedd sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Treftadaeth y Loteri. Mae'r daith hon yn rhoi'r cyfle i ddeall sut mae ymchwil i hanes y parc wedi dylanwadu ar y dull a ddefnyddir i ddatblygu'r project. Cwrdd wrth fynedfa Porth y Gorllewin i Barc Bute (wrth ymyl Pont Caerdydd). *Pellter 2.5 cilomedr*

GWEITHDY FFOTOGRAFFIAETH YR HYDREF YM MHARC Y RHATH (75)
Dydd Sadwrn, 10 Hydref 4.30pm-6.30pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Cynlluniwyd y gweithdy ffotograffiaeth ar gyfer dechreuwyr â diddordeb brwd mewn ffotograffiaeth. Dewch â'ch camera eich hunan. Dim ond hyn a hyn o lefydd sydd ar gael a rhaid trefnu lle o flaen llaw. Ffoniwch y Gwasanaeth Ceidwaid Parciau ar **029 2044 5900/ 029 2044 5903** am ragor o fanylion neu i drefnu lle. Cyfarfod tu allan i Dŷ Gwydr Parc y Rhath. Mae'r gweithdai hyn ar gyfer pobl 17 mlwydd oed a throsodd. Gweler hefyd ddigwyddiad rhif 75.

CLWB GWYLIO BYWYD GWYLLT FFERM Y FFOREST (76)
Dydd Sadwrn, 17 Hydref 10am-12.00pm

£1.00 Y PLENTYN

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. GWYLIO yw cangen iau'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cenedlaethol ar gyfer plant 8-12 oed. Mae Clwb GWYLIO Bywyd Gwyllt Fferm y Fforest yn ffordd ddifyr o ddysgu am fywyd gwyllt a'i gadwraeth mewn amgylchedd diogel. Ffoniwch Wasanaeth y Ceidwaid Parciau ar **029 2044 5903** am ragor o fanylion. Cyfarfod wrth Ganolfan y Wardeniaid, Fferm y Fforest.

TAITH GERDDED ADAR FISOL YN FFERM Y FFOREST (77)
Dydd Sadwrn, 17 Hydref, 10.00am-12.30pm (ar y trydydd dydd Sadwrn o bob mis)

Arweinir gan RSPB Caerdydd a Chyfeillion Fferm y Fforest. Taith dywysedig i adnabod adar lleol, a all amrywio o fis i fis. Dewch ag ysbienddrych os oes gennych un. Yn addas ar gyfer pob lefel o ddiddordeb a phob oed. Cyfarfod yng Nghanolfan y Warden, Forest Farm Road, Yr Eglwys Newydd. Cynhelir y daith hon ar y trydydd dydd Sadwrn o bob mis. *Pellter 4 cilomedr*

BLWYDDYN YM MYWYD RHOSYN (78)
Dydd Mercher 21 Hydref 2.00pm-3.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Cymorth a chyngor ymarferol gan y Ceidwaid Parciau ar ofalu am eich rhosod. Bydd y digwyddiad hwn yn cynnwys hanner gostwng a chynnal a chadw eich casgliad rhosod dros y gaeaf. Gweler hefyd rifau 1 a 39. Cyfarfod yn Nhŷ Gwydr Parc y Rhath.

TAITH GERDDED CWRT INSOLE AC EGLWYS GADEIRIOL LLANDAF (79)
Dydd Mercher, 21 Hydref 10.00am-12.30pm

Arweinir gan Gyfeillion Cwrt Insole. Ymunwch â Chyfeillion Cwrt Insole am daith gerdded o amgylch gerddi addurniadol y maenordy godidog hwn o'r 19eg ganrif. Yna ewch am Barc Hailey ar hyd glan yr afon i Eglwys Gadeiriol Llandaf yna ar draws Lawnt yr Eglwys Gadeiriol ac yn ôl ar hyd Fairwater Road. Cyfarfod wrth gatiau'r brif fynedfa i Gwrt Insole. Cynhelir y teithiau hyn ar y trydydd dydd Mercher o bob mis. *Pellter 4 cilomedr*

TAITH GERDDED BEDDAU RHYFEL MYNWENT CATHAYS (80)
Dydd Sul, 25 Hydref 2.00pm-3.30pm

Arweinir gan y Gwasanaethau Profedigaeth. Cyfle i edrych ar y gwahanol Arwyddluniau Catrodol ar y cerrig coffa o'r ddau Ryfel Byd. Dewch i ddysgu am arwyddluniau catrodol ar y cerrig coffa yn y fynwent hon a chlywed straeon am rai o'r unigolion a gladdwyd yn Cathays. Cyfarfod wrth gatiau'r brif fynedfa yn Fairoak Road, Cathays. Ni chaniateir cŵn yn y fynwent. *Pellter 3 cilomedr*

CELF YR HYDREF YM MHARC FICTORIA (81)
Dydd Sadwrn, 7 Tachwedd, 1.00pm-3.00pm

£1.00 Y PEN
Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Cyfle i greu rhywbeth i fynd gartref o ddail yr hydref, cnau, aeron a chardiau! I gadw lle, cysylltwch â Gwasanaeth Ceidwaid y Parciau ar **029 2044 5900/ 029 2044 5903**. Cyfarfod Ym Mhafiliwn Bowlio Parc Fictoria. RHAID I BOB PLENTYN DDOD GYDAG OEDOLYN.

BYWYD GWYLLT AR AFON TAF (82)
Dydd Sadwrn, 7 Tachwedd, 2.00pm-5.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Taith ar hyd glannau Afon Taf yn archwilio rhyfeddodau'r afon. Efallai y bydd cyfle i weld eogiaid yn neidio (os bydd y rheiny'n cydymffurfio). Cyfarfod yng ngorsaf drenau Radur. Taith yn gorffen ar y sgwâr o flaen Stadiwm y Mileniwm. Cofiwch ddod ag arian i dalu am y trên yn ôl i orsaf Radur. *Pellter 8 cilomedr*

HANES A LLÊN GWERIN COED (83)
Dydd Sul, 8 Tachwedd 2.00pm-3.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Taith gerdded ysgafn trwy Goed Nant Fawr yn darganfod hen hanesion a'r chwedlau am goed Prydain. Pam oedd y goeden fedwen mor bwysig i filwyr Napoleon gilio o Moscow a pha ran mae'r goeden Ywen yn chwarae yn hanes Prydain? Cyfarfod wrth y fynedfa gyferbyn â phrif giatiau Ysgol Uwchradd Caerdydd. *Pellter 1.6 cilomedr*

TAITH GERDDED ADAR O GWMPAS LLYN PARC Y RHATH (84)
Dydd Sul, 8 Tachwedd, 10.00am-12.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Taith hamddenol yn y bore o amgylch Llyn Parc y Rhath i ddarganfod

yr amrywiaeth o fywyd gwyllt sydd gan y parc hwn i'w gynnig. Yn addas i unrhyw un â diddordeb mewn adar. Dewch ag ysbienddrych os gallwch. Cyfarfod wrth y goleudy yn Rhodfa Parc y Rhath, Lake Road West. *Pellter 2 cilomedr*

TAITH GERDDED CWRT INSOLE AC EGLWYS GADEIRIOL LLANDAF (85)
Dydd Mercher, 18 Tachwedd 10.00am-12.30pm

Arweinir gan Gyfeillion Cwrt Insole. Ymunwch â Chyfeillion Cwrt Insole am daith gerdded o amgylch gerddi addurniadol y maenordy godidog hwn o'r 19eg ganrif. Yna ewch am Barc Hailey ar hyd glan yr afon i Eglwys Gadeiriol Llandaf yna ar draws Lawnt yr Eglwys Gadeiriol ac yn ôl ar hyd Fairwater Road. Cyfarfod wrth gatiau'r brif fynedfa i Gwrt Insole. Cynhelir y teithiau hyn ar y trydydd dydd Mercher o bob mis. *Pellter 4 cilomedr*

TAITH GERDDED ADAR FISOL YN FFERM Y FFOREST (86)
Dydd Sadwrn, 21 Tachwedd, 10.00am-12.30pm (ar drydydd dydd Sadwrn bob mis)

Arweinir gan RSPB Caerdydd a Chyfeillion Fferm y Fforest. Taith dywysedig i adnabod adar lleol, a all amrywio o fis i fis. Dewch ag ysbienddrych os oes gennych un. Yn addas ar gyfer pob lefel o ddiddordeb a phob oed. Cyfarfod yng Nghanolfan y Warden, Forest Farm Road, Yr Eglwys Newydd. Cynhelir y daith hon ar y trydydd dydd Sadwrn o bob mis. *Pellter 4 cilomedr*

SUL PLANNU COED YNG NGHOEDWIG FISHPONDS (87)
Dydd Sul, 22 Tachwedd 10.00am- 1.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Rydym yn gwahodd teuluoedd a'r cyhoedd i ddod am dro a phlannu coed er mwyn dathlu Wythnos Genedlaethol Plannu Coed. Cyfarfod wrth y fynedfa i Goedwig Fishponds, oddi ar Pepys Crescent, Llanrhymni.

CLWB GWYLIO BYWYD GWYLLT FFERM Y FFOREST (88)
Dydd Sadwrn, 28 Tachwedd, 10am-12.00pm

£1.00 Y PLENTYN

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. GWYLIO yw cangen iau'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cenedlaethol ar gyfer plant 8-12 oed. Mae Clwb GWYLIO Bywyd Gwyllt Fferm y Fforest yn ffordd ddifyr o ddysgu am fywyd gwyllt a'i gadwraeth mewn amgylchedd diogel. Cyfarfod wrth ganolfan y wardeniaid, Fferm y Fforest. Ffoniwch Wasanaeth y Ceidwaid Parciau ar **029 2044 5903** am ragor o fanylion.

GWASANAETH COFFA NADOLIG YN AMLOSGFA THORNHILL (89)
Dydd Sul, 6 Rhagfyr, 2.00pm-3.30pm

Arweinir gan y Gwasanaethau Profedigaeth. Dyma un o'r gwasanaethau coffa blynyddol a gynhelir ym Mynwent ac Amlosgfa Thornhill yng Nghapel Wenallt. Cynhelir y gwasanaethau coffa i gofio am bawb a gafodd eu claddu a'u hamlosgi yng Nghaerdydd. Lluniaeth i ddilyn. Croeso i bawb. Mae tagiau coffa Coed Nadolig ar gael o 1 Rhagfyr 2009 am gyfraniad o £2.00. Tagiau i'w rhoi ar y goeden goffa tan Nos Ystwyll. Ni chaniateir cŵn yn y fynwent.

TAITH GERDDED ADAR O GWMPAS LLYN PARC Y RHATH (90)
Dydd Sul, 6 Rhagfyr, 10.00am-12.00pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Taith hamddenol yn y bore o amgylch Llyn Parc y Rhath i ddarganfod yr amrywiaeth o fywyd gwyllt sydd gan y parc hwn i'w gynnig. Yn addas i unrhyw un â diddordeb mewn adar. Dewch ag ysbienddrych os gallwch. Cyfarfod wrth y goleudy yn Rhodfa Parc y Rhath, Lake Road West. *Pellter 2 cilomedr*

CYNGERDD GAROLAU YNG NGERDDI'R GRANGE (91)
Dydd Mawrth, 8 Rhagfyr 6.30pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Ymunwch â'r Ceidwaid am gyngerdd carolau traddodiadol yng ngolau cannwyll ar lwyfan bandiau Gerddi'r Grange. Gwisgwch yn gynnes a dewch â thortsh os oes gennych un.

CYNGERDD CAROLAU YM MHARC FICTORIA (92)
Nos Fercher, 9 Rhagfyr 6.30pm

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Ymunwch â'r Ceidwaid am gyngerdd carolau traddodiadol yng ngolau cannwyll, ar lwyfan bandiau Parc Fictoria. Gwisgwch yn gynnes a dewch â thortsh os oes gennych un.

CYNGERDD CAROLAU YM MHARC Y RHATH (93)
Dydd Iau, 10 Rhagfyr 6.30pm

Ymunwch â'r Ceidwaid Parciau ar gyfer eu cyngerdd carolau blynyddol traddodiadol ym Mharc y Rhath. Gwisgwch yn gynnes a dewch â thortsh os oes gennych un. Nodwch: mynediad trwy glwyd Promenâd Lake Road West YN UNIG. Cyfarfod yng Nghaffi Terra Nova, Parc y Rhath, Lake Road West. Rhaid archebu llefydd o flaen llaw a ni chaniateir mynediad heb docyn. I gadw lle, cysylltwch â'r Gwasanaeth Ceidwaid Parciau. Ffôn: **029 2044 5900**. Gwerthir lluniaeth ysgafn.



SIÔN CORN AR LWYFAN CYCHOD PARC Y RHATH (94)
Dydd Sadwrn a Dydd Sul, Rhagfyr 12 a 13, 19 a 20, 11.00am-12.30pm & 2.00pm-3.30pm (Rhagfyr 14-18 drwy archebu ymlaen llaw yn unig).

£5 Y PLENTYN
Trefnwyd gan Hamdden Parciau. Dewch i weld Siôn Corn yn cyrraedd goleudy Parc y Rhath am 10.30am fore dydd Sadwrn, Rhagfyr 12 (os bydd y tywydd yn ffafriol). Bydd cyfle i chi ei gyfarfod ar yr amseroedd uchod, cael tynnu'ch llun, ac os byddwch chi wedi bod yn blentyn da, efallai y cewch chi anrheg a thaith ar gwch y Roath Pride. Yn addas i bob oed. Rhaid trefnu ymweliadau yn ystod yr wythnos ymlaen llaw Ffôn: **029 2044 5900**. Nid oes angen trefnu ar gyfer y penwythnosau.

ONCYFFION NADOLIG A GWNEUD TORCHAU YM MHARC FICTORIA (95)
Dydd Sadwrn, 12 Rhagfyr, 10.30am-12.30pm, 2.00-3.00pm (Dwy Sesiwn)

BONCYFFION £1.00, TORCHAU £5.00
Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Ymunwch â'r Ceidwaid i wneud eich boncyffion a'ch torchau Nadolig eich hun at dymor yr ŵyl. Cyfarfod yn y Pafiliwn Bowlio, Parc Fictoria. Gweler hefyd ddigwyddiad rhif 96.

GWNEUD BONCYFFION A THORCHAU NADOLIG YM MHARC Y RHATH (96)
Dydd Sul, 13 Rhagfyr, 10.30am-12.30pm, 2.00-3.00pm (Dwy Sesiwn)

BONCYFFION £1.00, TORCHAU £5.00
Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Ymunwch â'r Ceidwaid i wneud eich boncyffion a'ch torchau Nadolig eich hun at dymor yr ŵyl. Cyfarfod yn y Pafiliwn Bowlio, Gerddi'r Rhath. Gweler hefyd ddigwyddiad rhif 95.

TAITH GERDDED CWRT INSOLE AC EGLWYS GADEIRIOL LLANDAF (97)
Dydd Mercher ,16 Rhagfyr 10.00am-12.30pm

Arweinir gan Gyfeillion Cwrt Insole. Ymunwch â Chyfeillion Cwrt Insole am daith gerdded o amgylch gerddi addurniadol y maenordy godidog hwn o'r 19eg ganrif. Yna ewch am Barc Hailey ar hyd glan yr afon i Eglwys Gadeiriol Llandaf yna ar draws Lawnt yr Eglwys Gadeiriol ac yn ôl ar hyd Fairwater Road. Cyfarfod wrth gatiau'r brif fynedfa i Gwrt Insole. Cynhelir y teithiau hyn ar y trydydd dydd Mercher o bob mis. *Pellter 4 cilomedr*

CLWB GWYLIO BYWYD GWYLLT FFERM Y FFOREST (98)
Dydd Sadwrn, 19 Rhagfyr 10am-12.00pm

£1.00 Y PLENTYN

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. GWYLIO yw cangen iau'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cenedlaethol ar gyfer plant 8-12 oed. Mae Clwb GWYLIO Bywyd Gwyllt Fferm y Fforest yn ffordd ddifyr o ddysgu am fywyd gwyllt a'i gadwraeth mewn amgylchedd diogel. Cyfarfod wrth ganolfan y wardeniaid, Fferm y Fforest. Ffoniwch Wasanaeth y Ceidwaid Parciau ar **029 2044 5903** am ragor o fanylion.

TAITH GERDDED ADAR FISOL YN FFERM Y FFOREST (99)
Dydd Sadwrn, 19 Rhagfyr, 10.00am-12.30pm (ar y trydydd dydd Sadwrn o bob mis)

Arweinir gan RSPB Caerdydd a Chyfeillion Fferm y Fforest. Taith dywysedig i adnabod adar lleol, a all amrywio o fis i fis. Dewch ag ysbienddrych os oes gennych un. Yn addas ar gyfer pob lefel o ddiddordeb a phob oed. Cyfarfod yng Nghanolfan y Warden, Forest Farm Road, Yr Eglwys Newydd. Cynhelir y daith hon ar y trydydd dydd Sadwrn o bob mis. *Pellter 4 cilomedr*

PYTHEFNOS COEDWIG LAW (100)
O ddydd Sadwrn, 19 Rhagfyr 2009 tan nos Sul 3 Ionawr 2010 (Ac Eithrio 25 Rhagfyr 2009) PRISIAU MYNEDIAD ARFEROL.

Arweinir gan Wasanaeth y Ceidwaid Parciau. Dewch i waredu ar ddiflastod y gaeaf gyda thaith yng nghoedwig law ddeniadol Caerdydd, a darganfod am y planhigion a'r anifeiliaid rhyfeddol yng nghynefin mwyaf amrywiol y byd. Posau a llwybrau ar gael. Prisiau mynediad arferol. Cyfarfod yn Nhŷ Gwydr Parc y Rhath.

Ionawr 2010

TAITH GERDDED MYNYDD Y GARTH (101)
Dydd Sadwrn, 2 Ionawr 2010, 10.30am-1.30pm

Trefnir gan Wasanaeth Ceidwaid y Parciau. Ar ôl ei gorwneud hi dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, cyfle i gael awyr iach ar lethrau graddol y mynydd agosaf at Gaerdydd, 'Y Garth'. Yn dibynnu ar y tywydd, efallai y cawn weld tirlun gaeafol crib Caerffili, Bannau Brycheiniog, dinas Caerdydd a'r olygfa dros yr aber. Gofalwch eich bod yn paratoi am daith gerdded yn y gaeaf. MAE DILLAD GLAW AC ESGIDIAU CERDDED CADARN YN HANFODOL AR GYFER Y GWEITHGAREDD HWN. Gallech hefyd ddod â fflasg o goffi/cawl i'ch cynhesu ar y copa! Cyfarfod yng ngorsaf drenau Ffynnon Taf. *Pellter 11 cilomedr*

TAITH GERDDED AR ÔL Y NADOLIG YM MHARC HAILEY A FFERM Y FFOREST (102)
Dydd Sul, 17 Ionawr 2010, 11.30am-2.00pm

Arweinir gan Gyfeillion Parc Hailey a Chyfeillion Fferm y Fforest. Wedi gorfwyta dros y Nadolig? Wedi gwneud adduned Arweinir gan Gyfeillion Parc Hailey a Chyfeillion Fferm y Fforest. Wedi gorfwyta dros y Nadolig? Wedi gwneud adduned blwyddyn newydd i gadw'n heini? Ymunwch â ni am daith a arweinir gan Gyfeillion Parc Hailey a Chyfeillion Fferm y Fforest. Croeso i bawb o bob oed. Rhaid i bob plentyn fod yng nghwmni oedolyn. Croeso i gŵn. Cyfarfod wrth Beiriant Lifft Dŵr Melingriffith, Tŷ Mawr Road. *Pellter 5 cilomedr*